

Cynllun Uwchraddio'r Rheilffordd – Cymru

2017/18



Rhestr Termau

Trenau wedi eu canslo neu yn hwyr iawn. Mae hwn yn mesur sawl trên sydd wedi eu canslo neu sy'n fwy na 29 munud yn hwyr yn eu gorsaf derfynol

Mesur bodlonrwydd teithwyr – Caiff hyn ei fesur yn dibynnu ar y rheilffordd, ond mae'n seiliedig fel arfer ar Arolwg Teithwyr Network Rail mae Transport Focus yn ei gynnal.

Mesur Perfformiad Cyhoeddus. Canran y trenau sy'n cyrraedd eu gorsaf derfynol o fewn pum munud (ar gyfer gwasanaethau cymudo) neu ddeng munud (ar gyfer gwasanaethau teithiau hir) i'r amser roedden nhw i fod i gyrraedd.

Mesur lleihau cwynion ynghylch gwaith rheilffordd – Rydym ni o'r farn y byddai llai o gwynion gan y cyhoedd ynghylch gwaith rheilffordd petaem ni'n gwella'r ffordd rydym ni'n hysbysu pobl o waith rydym ni'n ei gynllunio, ac yn sicrhau bod ein holl staff yn ystyriol o bobl sy'n byw ac yn gweithio ger y rheilffordd. Mae pob rheilffordd felly yn anelu at leihau nifer y cwynion maen nhw'n eu derbyn yn ystod y flwyddyn sydd o'n blaenau.

Cymru

Cyflwyniad gan reolwr gyfarwyddwr y rheilffordd – Andy Thomas

Y rheilffordd ydy gwaed economaidd a chymdeithasol Cymru a'r gororau. Mae'n cynnwys rheilffyrdd cymudo allweddol yng Nghaerdydd, y Cymoedd a'r cyffiniau, ynghyd â llinellau sy'n gwasanaethu trefi, dinasoedd a chymunedau gwledig a glan y môr yng ngogledd, canolbarth a gorllewin Cymru.

Wrth gydweithio gyda'n prif gwmni trenau, Trenau Arriva Cymru, a'r cwmnïau trenau a chludiant eraill, fy mlaenoriaeth ydy sicrhau ein bod yn adeiladu rheilffordd yng Nghymru sy'n cynnig isadeiledd o ansawdd i bobl Cymru a'r gororau. Diben hyn ydy cefnogi twf economaidd, creu swyddi a meithrin cymunedau cynaliadwy.

Fel rhan o'n cynllun i uwchraddio'r rheilffordd, rydym ni wrthi'n disodli'n systemau arwyddion hynafol gydag offer o'r radd flaenaf. Bydd hyn yn fodd i ni adeiladu rheilffordd gadarnach, fwy dibynadwy fydd yn caniatáu cynnal mwy o wasanaethau yn y dyfodol. Eleni, byddwn yn cwblhau cam olaf cynllun uwchraddio sylweddol ar y rheilffordd rhwng gogledd a de Cymru. Hefyd, bydd modd i deithwyr ddechrau manteisio cyn hir ar y fflyd newydd sbon o drenau'r unfed ganrif ar hugain fydd yn teithio rhwng de Cymru a Llundain.

Rydym ni'n gweithio'n agos gyda Thrafnidiaeth Cymru – y mudiad a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i arwain y gwaith o ddatblygu system drafnidiaeth y Metro newydd ac i sicrhau masnachfaint newydd Cymru a'r Gororau. Bydd hyn yn sicrhau y gall y rhwydwaith rheilffyrdd gefnogi dyheadau Trafnidiaeth Cymru ar gyfer y dyfodol.

Roedd sefydlu rheilffordd Cymru yn 2011 yn gam mawr ymlaen wrth i ni weld, am y tro cyntaf erioed, endid rheilffordd Cymreig yn blaguro. Gyda mwy a mwy o ymrwymiad i ddatganoli o fewn Network Rail, bydd mwy o benderfynu lleol a mwy o atebolrwydd i'n prif randdeiliaid yng Nghymru a'r gororau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr etholedig, pobl sy'n byw a gweithio ger y rheilffyrdd a phobl a chymunedau sy'n dibynu ar y rheilffordd.



Trosolwg o'r Rheilffordd



CP5 (2014-2019) cyfanswm gwariant ar adnewyddu ac atgyweirio – £734m



1,340 o wasanaethau trên bob dydd



2,923 o bontydd, 1,150 o groesfannau rheilffordd, 55 blwch arwyddion, 246 gorsaf



1,487 milltir o gledrau a 923 milltir o reilffordd



C. 1,500 o weithwyr



29.3m o deithwyr bob blwyddyn

Ein targedau cwsmer ar gyfer y flwyddyn sydd o'n blaenau

[Sylwer: detholiad o'n targedau ydy'r rhain, ac maen nhw'n ddibynnol ar gymeradwyaeth y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd a'r Adran Drafnidiaeth].

Trenau Arriva Cymru


Mesur Perfformiad Cyhoeddus – 93.5 %

Trenau wedi eu canslo ac yn hwyr iawn – 2.34 %

Y rheilffordd yn ei chyfanrwydd

Bodlonrwydd teithwyr – 82 %

Cwynion ynglŷn â gwaith rheilffordd – 429



Cynllun trydaneiddio'r
Great Western

Cynllun gwella rheilffordd
Gogledd/De Cymru

Metro De Cymru

Prosiect Uwchraddio Rheilffordd
Gogledd Cymru

Cynllun adnewyddu arwyddion
Porth Talbot-Abertawe

1 Adnewyddu arwyddion ardal Caerdydd

Cynllun trydaneiddio'r Great Western

Rydym ni'n trydaneiddio prif linell de Cymru fel rhan o gynllun uwchraddio'r Great Western o Lundain i dde Cymru.

Dyma'r buddsoddiad unigol mwyaf ar reilffordd y Great Western ers Brunel a bydd o fudd i deithwyr a'r economi leol.

Yn y flwyddyn sydd o'n blaenau: Gosod gwifrau yn yr awyrac addasu pontydd, llwyfannau a thoi'r gorsafoedd ar gyfer y gwifrau.

Erbyn 2019: Y llinell wedi ei thrydaneiddio'n llwyr o Lundain i Gaerdydd

Manteision i deithwyr: Trenau gwyrddach, cynt, mwy dibynadwy a rheolaidd, a rheilffordd dawelach i'r bobl sy'n byw a gweithio gerllaw.

Cynllun gwella rheilffordd Gogledd/De Cymru

Rydym ni'n gwella'r teithiau rhwng gogledd a de Cymru, gan gynnwys uwchraddio pedair croesfan.

Yn y flwyddyn sydd o'n blaenau: Mae disgwyl i'r cynllun fod wedi ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2017.

Manteision i deithwyr: Yn fwy diogel i bobl sy'n defnyddio croesfannau rheilffordd, lleihau'r posibilrwydd o oedi i deithwyr, a chreu'r posibilrwydd o gael gwasanaethau cynt a mwy rheolaidd yn y dyfodol.

Metro De Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Trafnidiaeth Cymru fel cwmni nid er elw ym mherchnogaeth lawn cwmni arall. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn sicrhau cynllun masnachfaint nesaf Rheilffordd Cymru a'r Gororau ac yn gweithio hefyd ar y cynllun Metro. Bydd y metro yn system drafnidiaeth newydd fydd yn ceisio cynnig gwasanaethau trên, bws a rheilffordd ysgafn mwy cyflym a rheolaidd yn rhanbarth Caerdydd, gyda gwell cyswllt rhwng y gwahanol elfennau.

Rydym ni'n gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru i ddatblygu dewisiadau ar gyfer y cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys modelau amgen ar gyfer adeiladau a gweithredu'r rheilffordd. Rydym ni hefyd yn eu cefnogi i sicrhau fod yr holl ddewisiadau'n gyswllt gyda'r rhwydwaith rheilffordd presennol.

Yn y flwyddyn sydd o'n blaenau: Proses sicrhau ar gyfer y cynllun masnachfaint a'r Metro.

Erbyn 2019: Mae disgwyl i'r cytundeb gael ei dyfarnu yn gynnar yn 2018, gyda'r fasnachfaint yn dechrau ym mis Hydref 2018.

Manteision i deithwyr: Bydd hyn yn dibynu ar ganlyniad y broses sicrhau, ond bwriad Llywodraeth Cymru ydy trenau cynt a mwy niferus a llai o oedi a chanslo gwasanaethau.

Cynllun Uwchraddio Rheilffordd Gogledd Cymru

Rydym yn uwchraddio rhannau o Reilffordd Gogledd Cymru

Yn y flwyddyn sydd o'n blaenau: Byddwn yn gosod system arwyddion newydd rhwng Shotton a Bae Colwyn ac yn gwella trefniant y trac yng ngorsafoedd Abergele a Phensarn.

Manteision i deithwyr: Lleihau'r posibilrwydd o oedi a chanslo gwasanaethau.

Cynllun adnewyddu arwyddion Porth Talbot-Abertawe

Rydym ni'n uwchraddio'r arwyddion yn yr ardal ynghyd â gwneud gwelliannau eraill.

Yn y flwyddyn sydd o'n blaenau: Byddwn yn uwchraddio'r arwyddion rhwng Twnnel Cockett a Baglan, a rhwng Porth Talbot ac Abertawe. Byddwn hefyd yn gwneud gwelliannau i'r trac.

Manteision i deithwyr: Lleihau'r posibilrwydd o oedi a chanslo gwasanaethau.

Adnewyddu Arwyddion Ardal Caerdydd

Rydym ni'n gweithio ar ein cynllun arwyddion cymhlethaf erioed i'w gynnal unrhyw le ym Mhrydain. Byddwn yn trosglwyddo rheolaeth arwyddion yr ardal i Ganolfan Weithredu Rheilffordd Cymru yng Nghaerdydd, sy'n ganolfan reoli o'r radd flaenaf. Mae'r cynllun hefyd wedi cynnwys gwelliannau i orsafoedd Heol y Frenhines a Chaerdydd Canolog.

Yn y flwyddyn sydd o'n blaenau: Mae disgwyl i'r cynllun fod wedi ei gwblhau erbyn diwedd 2017.

Manteision i deithwyr: Lleihau'r posibilrwydd o oedi a chanslo gwasanaethau. Gwell cyfleusterau yn y gorsafoedd. Y posibilrwydd o redeg mwy o drenau yn y dyfodol.


Mentrau Cymru gyfan

Cynnal, cadw ac adnewyddu'r rhwydwaith

Rydym ni'n gwario £55 miliwn ar waith cynnal a chadw yn y flwyddyn sydd o'n blaenau, a £260 miliwn pellach yn y ddwy flynedd nesaf ar adnewyddu rhwydwaith rheilffordd Cymru.

Manteision i deithwyr: Drwy uwchraddio'n rhwydwaith rydym ni'n lleihau'r posibilrwydd o oedi ym mhob rhan o'r rhwydwaith.


Gwelliannau tybiedig i deithiau




Caerdydd a Llundain



Gogledd Cymru a Llundain



Wrecsam a Lerpwl



Cymudo i Ddinas-Ranbarth Caerdydd



Network Rail Limited 1
Eversholt Street
Llundain NW1 2DN

Ffôn 020 7557 8000

networkrail.co.uk

Rhif cwmni: 4402220 Wedi
cofrestru yng Nghymru a Lloegr

Working for you